



Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

INF291W

Gwasanaethau
Cerbydau

Canllawiau gwasanaeth cofrestru ôl-gerbydau



Cynnwys

Beth yw ôl-gerbyd?	3
Oes angen imi gofrestru fy ôl-gerbyd?	3
Llwythi gwaith annormal	4
Ffioedd	4
Y gwasanaeth cofrestru ôl-gerbyd.....	4
Sut i gofrestru ôl-gerbyd	5
Sut i gaffael ôl-gerbyd.....	6
Beth sy'n digwydd nesaf.....	6
Creu cyfrif ôl-gerbyd	7
Cyrchu eich cyfrif ôl-gerbyd.....	8
Rheoli eich ôl-gerbydau	8
Gwaredu ôl-gerbyd	9
Rheoli cyfrif ôl-gerbyd cwmni	10
Rhifau cofrestru ôl-gerbyd	10
Fformat rhif cofrestru ôl-gerbyd.....	11
Arddangos rhifau cofrestru ôl-gerbyd.....	11
Sut i gael plât rhif ôl-gerbyd	12
Manyleb dylunio plât ôl-gerbyd	12
Ble i arddangos y platiau cofrestru ar ôl-gerbyd.....	14
Sticeri'r DU	14
Beth i'w wneud os caiff eich plât cofrestru ôl-gerbyd ei ddwyn.....	15
Gwybodaeth ddefnyddiol.....	15

Beth yw ôl-gerbyd?

Mae'r ddeddfwriaeth (Deddf Trwyddedau Cludo Nwyddau a Chofrestru Ôl-gerbydau 2018) yn nodi mai diffiniad o ôl-gerbyd yw unrhyw beth ar olwynion, sydd wedi'i fwriadu neu wedi'i addasu i gael ei dynnu gan gerbyd modur. Mae hyn yn cynnyws, ond nid yw'n gyfyngedig i, ôl-gerbydau masnachol, cludwyr anifeiliaid a charafannau.

Oes angen imi gofrestru fy ôl-gerbyd?

Mae'n rhaid i chi gofrestru pob ôl-gerbyd dros 750kg i'w gyrru yn y rhan fwyaf o wledydd yn Ewrop, ar wahân i Iwerddon, Cyprus, Malta a Sbaen.

Gall awdurdodau tramor gymryd camau gorfodi os nad yw'r ôl-gerbyd wedi'i gofrestru ac na allwch gyflwyno'r dystysgrif gofrestru ôl-gerbyd os gofynnir amdani. Mae hyn yn berthnasol i ôl-gerbydau masnachol ac anfasnachol (er enghraifft, carafannau a chludwyr anifeiliaid).

Ar gyfer gwledydd nad ydynt yn Ewrop, gallwch wirio a yw gwlad benodol yn gofyn i ôl-gerbydau sy'n ymweld gael eu cofrestru. Cysylltwch â naill ai:

- eu hawdurdod trwyddedu
- llysgenhadaeth yn y DU yn **www.gov.uk/government/publications/foreign-embassies-in-the-uk**

Ni allwch ddefnyddio'r gwasanaeth cofrestru ôl-gerbydau ar gyfer:

- unrhyw ôl-gerbydau sy'n pwyso 750kg neu lai mewn pwysau gros
- Ffrâm-A - ffrâm yw hon (siâp fel A) sydd ynghlwm wrth flaen cerbyd (er enghraifft, car) i ddarparu atodiad sy'n caniatáu i'r cerbyd gael ei dynnu y tu ôl i gerbyd arall (er enghraifft, cartref modur)

Ôl-gerbydau llwyth annormal

Os oes gennych ôl-gerbyd llwyth annormal, yn ogystal â'i gofrestru gyda DVLA, bydd angen ichi wneud cais i'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) am dystysgrif ceidwad. Mae rhai gwledydd yn mesur llwythi annormal yn wahanol i'r DU. Gwiriwch gyda phob gwlad rydych chi'n teithio drwyddi i gael gwybod os yw'r llwyth rydych chi'n ei gludo yn cyfrif fel annormal.

Dylech wirio a yw'ch ôl-gerbyd yn gymwys fel llwyth annormal gyda DVSA. Am unrhyw ymholiadau ynglŷn â llwythi anarferol neu dystysgrif y ceidwad, cysylltwch â: **www.gov.uk/government/publications/get-an-abnormal-load-trailer-keepers-certificate-to-use-it-abroad**

Ffioedd

Mae'n costio:

- £26 i gofrestru ôl-gerbyd am y tro cyntaf
- £21 i gyhoeddi tystysgrif gofrestru newydd ar gyfer ceidwad cofrestredig newydd
- £10 i ddisodli tystysgrif cofrestru ôl-gerbyd y DU ar goll, wedi'i dwyn, ei difrodi neu ei dinistrio

Bydd angen ichi gael plât rhif gyda'r rhif cofrestru ôl-gerbyd a roddir i'ch ôl-gerbyd pan gaiff ei gofrestru gyntaf. Gallwch ddod o hyd i fanylion eich cyflenwr plât rhif cofrestredig (RNPS) agosaf yn

www.gov.uk/number-plate-supplier

Y gwasanaeth cofrestru ôl-gerbydau

Mae'r gwasanaeth cofrestru ôl-gerbydau ar gael yn **www.gov.uk/cofrestru-ol-gerbyd-i-gymryd-dramor**

Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn i:

- greu cyfrif i gofrestru eich ôl-gerbydau
- mewngofnodi i gyfrif presennol (cliciwch 'dechrau nawr')

- rheoli manylion eich ôl-gerbyd cofrestredig – er enghraifft, os ydych chi'n gwerthu neu'n sgrapio ôl-gerbyd neu'n newid eich enw neu'ch cyfeiriad

Sut i gofrestru ôl-gerbyd

I gofrestru ôl-gerbyd (sydd heb ei gofrestru o'r blaen), bydd arnoch angen y canlynol:

- Rhif Adnabod y Cerbyd (VIN) – sy'n 17 nod a ni ellir gynnwys y llythrennau 1, O neu Q
- rif siasi (gall hwn fod yn llai na 17 nod)
 - mae'r rhifau hyn fel arfer ar blât metel sydd wedi'i osod ar yr ôl-gerbyd gan y gwneuthurwr neu wedi'i stampio i mewn i'r siasi
 - mae rhai gwneuthurwyr carafán yn defnyddio CRIS (Cynllun Cofrestru ac Adnabod Canolig) fel VIN. Gall hwn gael ei ddefnyddio cyn belled na ddefnyddir y llythrennau I, O neu Q
 - os nad oes gan eich ôl-gerbyd VIN, siasi neu CRIS y gellir ei ddefnyddio, bydd angen ichi gael VIN cyn y gallwch gofrestru'r carafán. Os ydyw dros 3,500kg, bydd angen ichi gysylltu â DVSA. Os ydyw o dan 3,500kg, bydd angen ichi gysylltu â DVLA
 - mae gan rhai ôl-gerbydau rif cyfresol yn lle'r uchod, gall hwn hefyd gael ei ddefnyddio yn y maes siasi ar y gwasanaeth
- gwneuthurwr ôl-gerbyd (os na allwch ddod o hyd i'ch gwneuthurwr, dewiswch 'gwneuthurwr heb ei restru' i'w deipio â llaw)
- pwysau gros mewn kg – mae hyn yn cael ei bennu gan y gwneuthurwr, ac mae'n golygu'r pwysau mwyaf y caniateir i'r ôl-gerbyd fod pan fydd wedi'i lwytho'n llawn. Dyma'r pwysau heb lwyth yr ôl-gerbyd ynghyd ag uchafswm y prif lwyth a ganiateir, a elwir hefyd yn uchafswm màs a ganiateir (ar gyfer carafanau, os nad yw pwysau gros wedi'i nodi, gellir defnyddio'r Màs Llawn Llwytho Uchaf a Ganiateir yn Dechnegol (MTPLM))

- pwysau heb lwyth mewn kg – pwysau ôl-gerbyd gwag, gan gynnwys unrhyw addasiadau parhaol (ar gyfer carafannau, os nad yw pwysau gros wedi'i nodi, gellir defnyddio'r Màs y Cerbyd wrth ei Weithredu (MIRO))
- math o ôl-gerbyd (er enghraifft, ôl-gerbyd bocs, ôl-gerbyd cynhwysydd, cludwr anifeiliaid neu garafán)
- dull talu

Os gwelwch y neges gwall canlynol 'Mae'r VIN yn cydweddu â'r ôl-gerbyd sydd eisoes wedi'i gofrestru', bydd angen ichi gaffael yr ôl-gerbyd gan ddefnyddio ei rif cofrestru ôl-gerbyd.

Sut i gaffael ôl-gerbyd

Os ydych chi'n ceisio caffael ôl-gerbyd (sydd eisoes wedi'i gofrestru gyda rhif cofrestru ôl-gerbyd), rhaid ichi gofrestru'r ôl-gerbyd gan ddefnyddio ei rif cofrestru ôl-gerbyd a gyhoeddwyd gan y DVLA.

I gaffael ôl-gerbyd, bydd arnoch angen:

- rhif cofrestru'r ôl-gerbyd
- rhif VIN (17 nod) neu rif siasi (gall hwn fod yn llai na 17 nod)

Os nad yw'r rhif cofrestru ôl-gerbyd yn cael ei adnabod, bydd angen ichi gofrestru'r ôl-gerbyd am y tro cyntaf gan ddefnyddio'r rhif VIN neu rif siasi.

Beth sy'n digwydd nesaf

Cadarnhad

Unwaith y bydd ôl-gerbyd wedi'i gofrestru'n llwyddiannus, byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau ar unwaith. Gwiriwch eich ffolder sothach.

Tystysgrif awdurdodi plât rhif ôl-gerbyd

Bydd eich e-bost cadarnhau yn cynnwys 'Tystysgrif awdurdodi plât rhif ôl-gerbyd' (eV948/2) y gallwch ei defnyddio i gynhyrchu platiau rhif ôl-gerbyd (am ragor o wybodaeth, gweler yr adran 'Sut i gael plât rhif ôl-gerbyd').

Tystysgrif Gofrestru Ôl-gerbyd

Byddwch hefyd yn derbyn tystysgrif gofrestru ôl-gerbyd bapur a fydd yn cael ei phostio i'ch cyfeiriad o fewn 3 i 5 diwrnod gwaith. Rhaid ichi gael tystysgrif gofrestru ôl-gerbyd gyda'r ôl-gerbyd fel y gellir ei dangos i awdurdod tramor ar gais. Mae eich tystysgrif gofrestru ôl-gerbyd yn ddilys am 10 mlynedd.

Creu cyfrif ôl-gerbyd

I greu cyfrif ôl-gerbyd am y tro cyntaf, bydd arnoch angen ID Porth y Llywodraeth (hyd at 12 nod). Os nad oes gennych ID Porth y Llywodraeth, byddwch yn gallu creu un tra'n defnyddio'r gwasanaeth ôl-gerbyd.

I greu ID Porth y Llywodraeth, bydd arnoch angen:

- eich enw
- cyfeiriad e-bost
- cyfrinair
- gair cofiadwy, y mae Porth y Llywodraeth yn ei alw'n 'air adfer'

Os ydych chi wedi creu ID Porth y Llywodraeth o'r blaen ar gyfer gwasanaeth gwahanol, gallwch ddefnyddio hwnnw i greu cyfrif ôl-gerbyd.

Mae'n bwysig cofio eich ID Porth y Llywodraeth gan fod hwn yn ofynnol i gael mynediad i'ch cyfrif yn y dyfodol.

Gallwch greu cyfrif ôl-gerbyd at ddefnydd personol (cyfrif unigol) neu ddefnydd masnachol (cyfrif cwmni).

Ar gyfer cyfrifon masnachol, dylid ystyried wrth greu cyfrif, osgoi colli mynediad i'ch cyfrif oherwydd newid mewn personél. Rydym yn argymhell bod eich cyfrif cwmni yn cael ei greu gan rywun sy'n berchen ar y cwmni. Mae'r swyddogaeth i ychwanegu defnyddwyr at y cyfrif, fel gweithwyr, ar gael o fewn y gwasanaeth – gweler yr adran 'Rheoli cyfrif ôl-gerbyd cwmni'.

Mae'n bwysig sicrhau bod eich cyfeiriad e-bost a manylion eich ôl-gerbyd bob amser yn gyfredol, fel nad ydych byth yn colli hysbysiadau pwysig am eich ôl-gerbyd. Gallwch ddiweddarau eich gwybodaeth unrhyw bryd os bydd unrhyw beth yn newid.

Cyrchu eich cyfrif ôl-gerbyd

Gallwch fewngofnodi i'ch cyfrif ôl-gerbyd drwy:

- ymweld â **www.gov.uk/cofrestru-ol-gerbyd-i-gymryd-dramor**
- clicio ar 'dechrau nawr'
- cliciwch 'oes' i 'A oes gennych gyfrif ôl-gerbyd?'
- rhwch ID a chyfrinair Porth y Llywodraeth dilys

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau wrth fewngofnodi, fel anghofio cyfrinair neu ID Porth y Llywodraeth, mae dolenni cymorth ar gael ar y dudalen fewngofnodi. Gweler 'problemau wrth fewngofnodi'.

Rheoli eich ôl-gerbydau

Unwaith y byddwch wedi cofrestru ôl-gerbyd ar eich cyfrif ôl-gerbyd, gallwch:

- archebu tystysgrif gofrestru ôl-gerbyd newydd am ffi (os yw wedi'i cholli neu ei difrodi)
- newid manylion y ceidwad neu'r ôl-gerbyd
- tynnu'r ôl-gerbyd o'r cyfrif
- adnewyddu'r dystysgrif ôl-gerbyd (os yw'n berthnasol)

Gwaredu ôl-gerbyd

Rhaid ichi ddweud wrth DVLA os yw eich ôl-gerbyd:

- wedi'i werthu neu ei drosglwyddo
- wedi'i sgrapio neu y tu hwnt i'w drwsio
- wedi'i allforio

Gallwch wneud hyn yn eich cyfrif ôl-gerbyd drwy ddewis yr ôl-gerbyd perthnasol a chlicio 'dileu o'r cyfrif ôl-gerbyd.' Gofynnir ichi ychwanegu'r dyddiad gwaredu.

Rhaid ichi hefyd dynnu'r plât cofrestru oddi ar yr ôl-gerbyd a dylech ddweud wrth unrhyw geidwad newydd beth yw'r rhif cofrestru. Mae hyn rhag ofn y byddant am gofrestru fel ceidwad yr ôl-gerbyd fel y gallant ei ddefnyddio'n rhyngwladol yn y dyfodol.

Gallwch hefyd ddewis tynnu ôl-gerbyd o'ch cyfrif os nad ydych chi'n ei ddefnyddio y tu allan i'r DU bellach. Mae hyn oherwydd nad yw'r cynllun yn berthnasol i ôl-gerbydau a ddefnyddir yn y DU yn unig. Dylech hefyd dynnu'r plât cofrestru oddi ar yr ôl-gerbyd ar ôl ichi hysbysu DVLA.

Rheoli cyfrif ôl-gerbyd cwmni

Os ydych chi wedi creu cyfrif cwmni, gallwch chi reoli aelodau eich tîm gan ddefnyddio'r swyddogaeth 'rheoli cyfrif'.

Gallwch:

- weld manylion aelodau'r tîm
- ychwanegu aelodau newydd o'r tîm
- diweddarau manylion aelodau'r tîm fel enw a chyfeiriad e-bost
- ailosod cyfrinair, ail-anfon neu ddileu ID Porth y Llywodraeth

Mae 2 fath o fynediad i aelodau'r tîm:

- gweinyddwr – gall gael mynediad at wasanaethau ar gyfer sefydliad a rheoli aelodau ei dîm
- defnyddiwr safonol – gall gael mynediad at wasanaethau ar gyfer sefydliad

Rydym yn argymhell eich bod wedi sefydlu o leiaf 2 aelod o'r tîm fel gweinyddwyr.

Rhifau cofrestru ôl-gerbyd

Unwaith y bydd ôl-gerbyd wedi'i gofrestru gyda DVLA, bydd rhif cofrestru unigryw yn cael ei ddyrannu iddo y mae'n rhaid ei arddangos ar yr ôl-gerbyd. Mae'r rhifau cofrestru hyn yn ffordd o adnabod ôl-gerbydau sydd wedi'u cofrestru yn y DU ac sy'n cael eu gyrru'n rhyngwladol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau hwylustod teithio tra byddwch dramor.

Fformat rhif cofrestru ôl-gerbyd

Fformat rhif cofrestru'r ôl-gerbyd yw un llythyren ac yna 7 rhif, sydd wedi'u gosod dros 2 linell. Dyma enghraifft:



AI23
4567

Noder na fydd rhif cofrestru ôl-gerbyd a gyhoeddwyd gan DVLA byth yn dechrau gyda'r llythyr 'C'.

Arddangos rhifau cofrestru ôl-gerbyd

Rhaid arddangos rhifau cofrestru ôl-gerbydau yn gywir ar blatiau rhif fel y nodir yn y Rheoliadau Cofrestru Ôl-gerbydau 2018. Mae'r rheoliadau hyn yn llywodraethu sut mae platiau rhifau cofrestru ôl-gerbydau yn cael eu dylunio a'u harddangos.

Mae'n drosedd cuddio'r rhif cofrestru mewn unrhyw ffordd sy'n ei gwneud hi'n anodd ei ddarllen. Er enghraifft, ni ddylech ddefnyddio bolltau gosod i newid y llythyren nac unrhyw un o'r rhifau. Gallai unrhyw un sydd â phlât rhif nad yw'n arddangos y rhif cofrestru'n gywir gael dirwy o hyd at £1,000.

Sut i gael plât rhif ôl-gerbyd

I brynu plât rhif ar gyfer eich ôl-gerbyd, rhaid ichi fynd at gyflenwr platiau rhif cofrestredig (RNPS) sy'n cyflenwi platiau rhif ôl-gerbyd. Gallwch ddod o hyd i fanylion eich RNPS agosaf yn

www.gov.uk/number-plate-supplier

Bydd angen ichi gyflwyno eich 'Tystysgrif awdurdodi plât rhif ôl-gerbyd' (eV948/2W) i'r RNPS. Byddwch wedi derbyn hon drwy e-bost pan wnaethoch gofrestru'r ôl-gerbyd. Mae'r awdurdodiad e-bost hwn yn ddilys am **5 diwrnod**.

Os ydyw wedi dod i ben, bydd angen ichi gyflwyno eich tystysgrif gofrestru ôl-gerbyd yn lle.

Bydd angen i'r cyflenwr weld dogfennau gwreiddiol hefyd sy'n profi eich enw a'ch cyfeiriad. Gallwch ddefnyddio un o'r dogfennau adnabod canlynol:

- trwydded yrru
- bil cyfleustodau, y dreth gyngor, neu fil ardrethi o'r 6 mis diwethaf
- datganiad banc neu gymdeithas adeiladu o'r 6 mis diwethaf
- cerdyn adnabod cenedlaethol

Bydd y canlynol yn cadarnhau eich enw yn unig:

- pasbort – nid oes rhaid ei fod wedi'i gyhoeddi yn y DU
- cerdyn debyd neu gredyd banc neu gymdeithas adeiladu
- cerdyn gwarant heddlu
- cerdyn adnabod y lluoedd arfog

Manyleb dylunio plât ôl-gerbyd

Mae plât cofrestru ôl-gerbyd yr un siâp â phlât safonol beic modur a rhaid iddo gynnwys nodau du solet (y llythyren a'r rhifau) ar gefndir gwyn.

Ni ddylai'r nodau ac arwyneb y plât gynnwys unrhyw ddyluniadau, patrymau na gweadau. Hefyd:

- rhaid i'r nodau fod yn 64mm o uchder
- rhaid i'r nodau (ac eithrio'r rhif '1' neu'r llythyren 'l') fod yn 44mm o led
- rhaid i'r rhif '1' a'r llythyren 'l' fod yn 10mm o led
- rhaid i strôc y nod (trwch y print du) fod yn 10mm o led
- rhaid i'r gofod rhwng y nodau fod yn 10mm
- rhaid i'r gofod fertigol rhwng pob rhes o'r nodau fod yn 5mm
- rhaid i led yr ymyl rhwng top y plât ac unrhyw un o'r nodau fod o leiaf 5mm
- rhaid i led yr ymyl rhwng gwaelod y plât ac unrhyw un o'r nodau fod o leiaf 13mm

Rhaid i'r nodau fod mewn ffont safonol (arddull llythrennu), er enghraifft:

**ABCDEFGHIJ
KLMNOPQRST
UVWXYZ
1234567890**

Rhaid i'r plât rhif ddangos y rhif cofrestru yn unig a manylion gwneuthurwr neu gyflenwr y plât rhif (er enghraifft, yr enw, y nod masnach, neu ffordd arall o adnabod gwneuthurwr neu gyflenwr y plât).

Ble i arddangos y platiau cofrestru ar ôl-gerbyd

Rhaid arddangos plât cofrestru'r ôl-gerbyd ar gefn yr ôl-gerbyd mewn man gweladwy a fertigol. Rhaid ei arddangos yn ogystal â phlât cofrestru'r cerbyd sy'n tynnu a rhaid ei osod cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl o'r plât hwn.

Os na ellir arddangos y plât ar gefn yr ôl-gerbyd, rhaid gosod plât cofrestru ôl-gerbyd ar ddwy ochr yr ôl-gerbyd fel eu bod ill dau yn hollol weladwy.

Sticeri'r DU

Yn ogystal â phlât cofrestru'r ôl-gerbyd, efallai y bydd rhai gwledydd tramor hefyd yn mynnu bod sticer o'r DU yn cael ei arddangos ar yr ôl-gerbyd. Er mwyn osgoi unrhyw risg o gamau gorfodi dramor, argymhellir eich bod yn arddangos sticer o'r DU.

Ni ddylid arddangos y sticer ar blât cofrestru'r ôl-gerbyd. Dylai hwn fod yn sticer neu'n arwydd ar wahân wrth ymyl plât yr ôl-gerbyd.

Beth i'w wneud os caiff eich plât cofrestru ôl-gerbyd ei ddwyn

Os caiff eich plât ei ddwyn, dylech ddweud wrth yr heddlu fel y gallant ymchwilio.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)

Ffôn: **0300 123 1350** (821 pan ofynnir amdano)

I gael gwybodaeth am gofrestru ôl-gerbyd, ewch i www.gov.uk/guidance/trailer-registration.cy



Os oes gennych unrhyw adborth ynghylch cynnwys y daflen hon, defnyddiwch y cod QR a ddarparwyd i anfon neges atom.

**Cadwch yn gyfoes
â'n newyddion
diweddaraf a
gwasanaethau yn:
gov.uk/dvla**

Gwasanaethau Cerbydau

Canllawiau gwasanaeth
cofrestru ôl-gerbydau

DVLA
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

gov.uk/dvla-cymraeg